Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Comisiwn y Cynulliad

Lleoliad:
**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Llun, 14 Mai 2012**

Amser:
**14:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Carys Evans, 029 2089 8598**
Ysgrifenyddiaeth

## Agenda
AC(4)2012(4)

### 1. Cyflwyniad

**Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**Datganiadau o fuddiant**

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol** (Tudalennau 1 - 6)

### 2. Cyllideb 2013-14 - blaenoriaethau/goblygiadau strategol
(Tudalennau 7 - 14)

### 3. Caffael yn y Cynulliad 2012-14 (Tudalennau 15 - 22)

### 4. Adborth o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio (19 Ebrill 2012)
(Tudalennau 23 - 29)

### 5. Strategaeth wobrwyo Comisiwn y Cynulliad ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad (Tudalennau 30 - 42)

### 6. Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn (Tudalennau 43 - 58)

### 7. Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad (Tudalennau 59 - 60)

## 8. Unrhyw fusnes arall

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

**NAFWC 2012**
**Cofnodion cyfarfod 8 Mawrth 2012**
**Dyddiad:** 8 Mawrth 2012
**Amser:** 10:30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd

# Cofnodion cyfarfod 8 Mawrth 2012

**Yn bresennol:**
Y Llywydd, Cadeirydd
Peter Black AC
Angela Burns AC
Sandy Mewies AC
Rhodri Glyn Thomas AC

**Swyddogion yn bresennol:**
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredol
Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Craig Stephenson, Pennaeth y Comisiwn a'r Gwasanaeth Cymorth i Aelodau
Nicola Callow, Pennaeth Cyllid
John Chick, Pennaeth Cymorth Busnes i'r Aelodau
Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn

**Cynghorwyr annibynnol:**
Mair Barnes
**Eraill:**
David Melding AC, Dirprwy Lywydd

**Cofnodion cyfarfod 2 Chwefror 2012**

**1. Cyflwyniad y Cadeirydd**

**Datgan buddiant**
Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**Cofnodion cyfarfod 2 Chwefror 2012**
Cytunwyd yn ffurfiol ar y cofnodion.

Roedd y swyddogion yn bwrw ymlaen â'r holl gamau eraill yr oedd angen eu cymryd.

**2. Y wybodaeth ddiweddaraf am wella'r gwasanaeth TGCh**
Ers cyfarfod diwethaf y Comisiwn, cymerwyd nifer o gamau i ymateb i bryderon yr Aelodau am rai agweddau ar y gwasanaeth TGCh. Cytunwyd ag Atos ar gynllun i wella'r gwasanaeth, cynhaliwyd cyfarfod rhwng uwch swyddogion Atos a Llywodraeth Cymru, a rhwng Aelodau'r Cynulliad a swyddogion y Comisiwn i nodi'r problemau sy'n parhau yn y gwasanaeth a'n hanghenion tebygol yn y dyfodol.

Defnyddiwyd adnoddau ychwanegol i sicrhau bod modd rhoi'r cynllun gweithredu ar waith. Fel rhan o'r cynllun, bydd peiriannydd yn ymweld â phob swyddfa etholaethol i ymdrin ag unrhyw broblemau a bydd rhagor o gymorth ar gael o ran rheoli prosiectau a pharatoi cynlluniau technegol er mwyn medru cyflwyno prosiectau gwella'n gynt a chaiff rheolau diogelwch a dulliau o ddarparu gwasanaethau eu hadolygu i'w haddasu'n well ar gyfer anghenion.

Cytunodd y Comisiynwyr fod y gwelliannau i'w gweld yn datrys y problemau TGCh ac roeddent yn falch bod camau pendant wedi'u cymryd yn y cyswllt hwn. Nodwyd bod trafodaethau ar y gweill ag Atos i archwilio i ba raddau y dylai Atos rannu'r gost ychwanegol sy'n deillio o'r camau hyn.

Cam i'w gymryd: swyddogion i ddosbarthu'r papur yn uniongyrchol i Aelodau'r Cynulliad.

## 3. Fframwaith Adroddiad Blynyddol a Datganiad Cyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2011-12

Bydd Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Cynulliad 2011-12 yn rhoi trosolwg strategol ar flaenoriaethau strategol Comisiwn y Cynulliad, ac yn rhoi pwyslais cryf ar adeiladu Cynulliad ar gyfer y dyfodol.

Adroddiad Blynyddol ar gyfer y cyhoedd fydd hwn, ond bydd hefyd o ddiddordeb i Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth, y cyfryngau a rhanddeiliaid eraill. Bydd yn ymdrin â nifer o themâu, gan gynnwys paratoi ar gyfer yr etholiad a'r diddymiad; yr etholiad a'r aelodaeth newydd; gwaith Comisiwn newydd y Cynulliad a'r trefniadau ar gyfer busnes y Cynulliad.

Cytunodd y Comisiwn ar gynnwys arfaethedig yr Adroddiad Blynyddol, Cytunwyd i gyhoeddi adroddiad gwahanol yn amlinellu'r hyn y mae'r Comisiwn wedi'i gyflawni yn ystod blwyddyn gyntaf y Pedwerydd Cynulliad; adroddiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn bennaf fydd hwn.

Cam i'w gymryd: swyddogion i fwrw ymlaen â'r paratoadau angenrheidiol.

## 4. Strategaeth Cyllideb y Comisiwn 2013 - 16

Trafodwyd sut y dylid ymdrin â chyllideb y Comisiwn ar gyfer 2013-14 a'r ffigurau dangosol ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn nhymor y Pedwerydd Cynulliad (2014-15 a 2015-16). Y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2013-14 fydd £49.450 miliwn;  £13.700 miliwn ar gyfer cyflogau a chostau Aelodau'r Cynulliad a £35.750 ar gyfer gwasanaethau'r Cynulliad, sef cynnydd o 5.3% o'i gymharu â chyllideb 2012-13.

Mae'r dulliau arfaethedig o ymdrin â'r gyllideb yn adlewyrchu cytundeb y Comisiwn i gyflwyno'r cynnydd yn y gyllideb  fesul cam, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid. Cytunodd y Comisiwn y dylid paratoi cyllideb  2013-14 yn unol â'r ffigurau dangosol.

Bydd rhagor o drafodaethau yng nghyfarfodydd y Comisiwn yn ystod tymor yr haf. Disgwylir i'r gyllideb derfynol gael ei chymeradwyo yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Medi, ac y caiff ei gosod yn ffurfiol erbyn 28 Medi.

Cytunodd y Comisiynwyr i ystyried:

- gofynion ariannu hirdymor y Pedwerydd Cynulliad;
- ymgynghori â'r Aelodau a'u staff cymorth ynglyn â'r gofynion hyn.

Cam i'w gymryd: swyddogion i fwrw ymlaen, yn unol â'r dulliau y cytunwyd arnynt.

### 5. Trin ceisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Ystyriodd y Comisiwn ddulliau posibl o wella'r modd y caiff ceisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 eu trin, er mwyn symleiddio'r broses a gwneud gwell defnydd o adnoddau'r Cynulliad.

Mae modd ymdrin â'r rhan fwyaf o'r ceisiadau'n ddidrafferth ond mae llawer gormod o waith ynghlwm wrth nifer fechan ohonynt oherwydd eu bod yn geisiadau mor eang a chymhleth.

Byddai cynyddu'r wybodaeth a gyhoeddir yn rhagweithiol yn golygu na fyddai angen ymateb i cynifer o geisiadau penodol, a byddai hefyd yn dangos ymrwymiad parhaus y Comisiwn i weithio'n agored ac yn dryloyw.

Trafododd y Comisiynwyr y math o wybodaeth y gellid ei chyhoeddi'n rhagweithiol. Tanlinellwyd y byddai angen cymryd gofal wrth wneud hynny i sicrhau cydbwysedd rhwng tryloywder a'r angen i barchu preifatrwydd. Cytunwyd y byddai'r Comisiynwyr yn cael cyfle i ystyried y math o wybodaeth y gellid ei chyhoeddi'n rhagweithiol cyn dod i benderfyniad terfynol.

Nodwyd bod y gost o ddarparu'r wybodaeth, mewn rhai achosion, yn fwy na'r 'uchafswm priodol'. Cytunwyd, mewn achosion o'r fath, ac yn unol â Chod y Cynulliad ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, na fyddai'r Comisiwn yn gwrthod darparu'r wybodaeth dan sylw (er y byddai ganddo hawl i wneud hynny) ond y byddai'n cadw'r hawl i beidio â darparu gwybodaeth pe bai'r costau'n amlwg yn ormodol a phe bai amgylchiadau ychwanegol, a fyddai'n diogelu buddiannau'r cyhoedd, yn cyfiawnhau arfer yr hawl hwnnw.

Cadarnhaodd y Comisiwn, yn unol â'r Cod, na fyddai'n codi tâl am y wybodaeth, ar wahân i rai achosion eithriadol. Cytunwyd i gasglu gwybodaeth am y gost o drin ceisiadau, er mwyn ei chynnwys yn adroddiadau'r Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn yn y dyfodol.

Camau i'w cymryd:

Swyddogion i ddarparu rhagor o wybodaeth am:

- gynigion i gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol yn rhagweithiol;
- y gost o drin ceisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**6. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeiliaid portffolio**

Dyma'r eitemau a drafodwyd:

**Gwasanaethau i'r Aelodau**
Fel ymateb i sylwadau gan Aelodau'r Cynulliad, bydd swyddogion y Comisiwn yn cynnal arolwg o'r gwasanaethau a gynigir i'r Aelodau i helpu i nodi unrhyw feysydd i'w gwella. John Chick, Pennaeth Cymorth Busnes i'r Aelodau, fydd yn arwain y gwaith hwn.

**Archwilio**
Cytunodd y Comisiwn y byddai'n cael adroddiadau'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod yr holl Gomisiynwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd gwaith y Pwyllgor hwnnw. Cytunwyd y byddai'n cael ei gynnwys ar agenda cyfarfodydd y Comisiwn pan fyddai hynny'n briodol.

**Siop y Cynulliad**
Bydd Siop y Cynulliad yn symud i Gaffi'r Senedd erbyn y Pasg 2012. Mae gwaith ar y gweill i wella'r arwyddion, ac i wneud y rhan honno o'r adeilad yn fwy cyfforddus ac atyniadol, ac i benderfynu ar yr eitemau i'w gwerthu yn y siop. Cytunwyd y byddai hefyd yn bwysig hyfforddi'r staff.

**Y Mesur Ieithoedd Swyddogol**
Mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wrthi'n ystyried Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol).

**Allgymorth a digwyddiadau**

Mae nifer o ddigwyddiadau amlwg wedi'u cynnal ar ystâd y Cynulliad yn ystod yr wythnosau diwethaf ac maent wedi bod yn boblogaidd iawn.

Bydd cyflwyniad ar waith ymgysylltu'r Tîm Allgymorth yn cael ei drefnu ar gyfer un o gyfarfodydd y Comisiwn maes o law.

**Trafodaethau ynghylch cyflogau**

Mae trafodaethau ar y gweill ynghylch cyflogau staff y Comisiwn.

**Portffolios y Comisiynwyr**

Cytunwyd y dylid egluro'r modd y mae'r gwaith yn y cael ei ddosbarthu rhwng y portffolios a, lle bo hynny'n briodol, y dylid ei addasu i adlewyrchu profiadau yn ystod y flwyddyn gyntaf.

**7. Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad**

Nodwyd y rhaglen dreigl.

**8. Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

# Eitem 2

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol â rheolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

**AC(4)2012(4) Papur 3 rhan 1**

**Dyddiad:** 14 Mai 2012
**Amser:** 14:30-16:30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd

**Enw a rhif ffôn yr awdur:** Jan Koziel, Pennaeth Caffael, est 8633

# Caffael yn y Cynulliad 2012 – 2014

## 1.0 Diben a chrynodeb

1.1 Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r camau y bwriedir eu cymryd dros y ddwy flynedd nesaf wrth i ni ddatblygu a chryfhau'r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer caffael yn y Cynulliad, fel bod modd i ni gyflawni nodau'r Comisiwn fel y nodir isod.

## 2.0 Argymhellion

2.1 Gwahoddir Comisiwn y Cynulliad i nodi'r camau a gymerir a chadarnhau ei fod yn fodlon â'r dull gweithredu.

## 3.0 Diben caffael

3.1 Gellir cwmpasu ein dull gweithredu o ran caffael fel a ganlyn:-

- Rydym am gael y gwasanaeth caffael gorau posibl – bydd yn fodern, yn effeithiol ac yn gyfrifol yn gymdeithasol;
- Byddwn yn sicrhau bod cynaliadwyedd a chydraddoldeb yn ganolog yn ein holl waith;
- Ceisiwn ddarparu'r gwasanaethau safonol y mae gan Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd yr hawl i'w disgwyl;
- Rydym yn datblygu cadwyn gyflenwi amrywiol a byddwn yn cynorthwyo cyflenwyr bach i gystadlu;
- Byddwn yn sicrhau y ceir gwerth am arian trethdalwyr – ond nid drwy brynu'r nwyddau a'r gwasanaethau rhataf yn unig;
- Wrth ymdrin â chyflenwyr a'r cyhoedd byddwn yn dryloyw a byddwn yn mabwysiadu'r safonau proffesiynol uchaf.

3.2 Y prif fodd y bydd dulliau rheoli caffael yn newid, yw y bydd y tîm Caffael yn mabwysiadu rôl mwy ymarferol yn hytrach na rôl gynghori yn unig.


## 4.0 Mabwysiadu dull strategol o weithredu

4.1 I sicrhau llwyddiant unrhyw ddulliau caffael, rhaid defnyddio strategaethau priodol ar gyfer marchnadoedd gwahanol. Byddwn yn edrych yn fanwl ar ein dull gweithredu o ran y farchnad ar gyfer pob contract, ac yn darganfod beth yw'r dull gorau o gyflwyno'r cyfleoedd sydd ar gael i gyflenwyr lleol a chwmnïau bach a chanolig i ennill contractau. Nid 'un ateb sy'n addas i bawb' fydd gennym, ond byddwn yn addasu ein prosesau fel na fydd cwmnïau bach a chanolig o dan unrhyw anfantais.

## 5.0 Lleoli cyflenwadau

5.1 Bydd lleoli cyflenwadau, lle byddwn yn dadansoddi ac yn deall pwysigrwydd contract o ran busnes, yn ein galluogi ni i ddewis y dull gorau o'i gaffael. Byddwn yn lleoli contract ar sail y risgiau tebygol a fydd yn deillio o'i gaffael, a'i werth, ac yn llunio strategaeth gaffael ar gyfer pob contract ar sail hynny. Byddwn **yn mabwysiadu'r dechneg hon mewn cysylltiad â phob contract sydd werth dros £25,000**.

## Lleoli Cyflenwadau – Mapio Risg




**6.0 Y strwythur gaffael gywir**

6.1 Bydd cyflwyno rôl gaffael sy'n fwy canolog, yn sicrhau bod rhagor o gysondeb o ran ein hymwneud â'r farchnad allanol, yn gwella dulliau llywodraethu ac yn lleihau risg masnachol i'r sefydliad. Bydd y swyddogaeth gaffael o ran contractau gwerth llai na £25,000 yn cael ei dirprwyo i wasanaethau unigol fel arfer, a bydd yr adran Gaffael yn darparu gwasanaeth cynghori. Bydd ymgysylltiad llawn â'r adran Gaffael gyda chontractau sydd werth £25,000 a throsodd.

**7.0 Sut y byddwn yn cyflawni'n nodau?**

7.1 Rydym am i'n gwasanaeth caffael fod y gorau, a byddwn yn cyflawni'r nod hon drwy fabwysiadu dull mwy ymarferol o weithio, a rheoli pob cam o'r broses gaffael, o ddatblygu'r strategaeth gaffael, hyd at ymwneud â'r gwaith o reoli'r contract wedi iddo gael ei ddyfarnu.

7.2 Byddwn yn cyflwyno asesiadau risg o ran cynaliadwyedd, i ystyried sut y gallwn leihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac ystyried unrhyw faterion

cymdeithasol ehangach. Defnyddir canlyniadau'r asesiadau hyn yn ein manylebau a'n dogfennau tendro.

7.3 Byddwn yn dryloyw o ran ein trafodion busnes, ac yn rhoi adborth manwl i gwmnïau aflwyddiannus fel y gallant fod mewn sefyllfa well i ennill cyfleoedd yn y dyfodol.

## 8.0 Argymhelliad

8.1 Gwahoddir Comisiwn y Cynulliad i nodi'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â strategaeth gaffael y Cynulliad a rhoi eu sylwadau arni.

**Jan Koziel**
**Y Pennaeth Caffael**
**Mai 2012**

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol âr heolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission Audit Committee**

**NAFWC ACAC**
**Cofnodion cyfarfod 19 Ebrill 2012**
**Amser:** 11:00
**Lleoliad:** Ystafell gynadledda 4b, Tŷ Hywel,

**Cofnodion cyfarfod 19 Ebrill**

**Yn bresennol:**
Richard Calvert (Cynghorydd annibynnol)
Tim Knighton (Cynghorydd annibynnol))
Professor Robert Pickard (Cynghorydd annibynnol)
Angela Burns, AC

**Swyddogion yn bresennol:**
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc
Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu
Steve O'Donoghue, Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad
Nicola Callow, Pennaeth Cyllid
Dave Tosh, Cyfarwyddwr TG
Lynne Flux, Pennaeth Archwilio Mewnol
Rachael Tonkin, KPMG
Richard Harries, Swyddfa Archwilio Cymru
Emma Moorhouse, Swyddfa Archwilio Cymru
John Grimes, Pennaeth Llywodraethu
Alison Rutherford, Ysgrifenyddiaeth

<u>**Cyflwyniad**</u>

**Eitem 1- Cyflwyniad a datgan buddiannau**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys Steve O'Donoghue yn ei rôl fel Cyfarwyddwr Cyllid a Dave Tosh fel y Cyfarwyddwr TG newydd.
2. Datganodd Tim Knighton fuddiant y byddai, cyn bo hir, yn mynychu panel recriwtio y bydd Claire Clancy yn eistedd arno.

**Eitem 2 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror a materion sy'n codi**

3. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol y tu allan i'r pwyllgor, a nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gamau gweithredu yn weddill.

<u>**Archwiliad mewnol**</u>

**Eitem 3 – Archwiliad mewnol – y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd**

ACAC(12) Papur 1a. Hynt adolygiadau archwilio mewnol

4. Trafododd y Pwyllgor Archwilio y papur a rhoddodd Lynne Flux drosolwg o'r sefyllfa o ran archwilio mewnol ar hyn o bryd. Dywedodd Lynne ei bod yn fodlon ar gynnydd adolygiadau diweddar, ac ychwanegodd bod y gwaith ar lwgrwobrwyaeth a llygredigaeth wedi cael ei aildrefnu i gyd-fynd â lansiad y polisi twyll. Dywedodd hefyd fod gwaith ar barhad busnes wedi cael ei ail-drefnu yn dilyn ail-alinio cyfrifoldebau o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch.
5. Dywedodd Lynne wrth y Pwyllgor Archwilio y bydd holiadur i asesu'r archwiliad mewnol yn cael ei ddosbarthu yn ystod y mis nesaf i'r Pwyllgor ac i aelodau'r Bwrdd Rheoli, ac y bydd proses hunanasesu hefyd yn cael ei gwblhau i fesur effeithiolrwydd yr archwiliad mewnol.

**Item 4 – Cynllun ar gyfer archwilio mewnol**

ACAC(12) Papur 1b. Cynllun ar gyfer archwilio mewnol 2012/13

6. Cyflwynodd Lynne y cynllun a dywedodd fod amserlen dreigl i weithredu argymhellion a wnaed mewn archwiliadau yn ystod y ddau gylch ddiwethaf wedi cael ei gyflwyno fel rhan o'r cynllun. Yn dilyn cwestiynau gan y Pwyllgor, dywedodd Lynne bod y penderfyniad i ymgymryd â gwaith yn fewnol neu ar y cyd gyda KPMG yn dibynnu ar y math o adolygiad a wneir a'r arbenigedd sydd ar gael yn KPMG. Mae ei blaenoriaethau yn y cynllun yn ymwneud â phrosiectau allweddol yng ngwasanaethau'r Cynulliad gan gynnwys y prosiect Adnoddau Dynol/cyflogres, ABMS a'r strategaeth TGCh gan fod y rhain yn effeithio ar wasanaethau a phobl ar draws y sefydliad.
7. Dywedodd y Cadeirydd y gallai archwilio mewnol chwarae rôl gryfach wrth gael y gwerth fwyaf am arian a dywedodd Lynne bod un neu ddau faes wedi cael eu dewis ar gyfer hyn fel rhan o'r cynllun ac y bydd hyn yn cael ei gynnwys fwyfwy wrth symud ymlaen. Byddai'n sicrhau cysylltiad â gwaith a gynlluniwyd yn y gwasanaethau ariannol.

8. Nododd y Pwyllgor yr oedi gyda'r adolygiad o gynllunio parhad busnes. Cafodd hyn ei nodi fel risg uchel/critigol ar y gofrestr risg. Cytunodd Claire Clancy y dylid ailystyried y sgôr risg a dywedodd y byddai'n well ganddi gael archwiliad yn ddiweddarach gan ei bod yn teimlo na fyddai cynnal archwiliad ar hyn o bryd yn nodi unrhyw faterion nad oedd eisoes yn ymwybodol ohonynt.

9. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio y cynllun.

**Eitem 5 – Adroddiad ar yr archwiliad mewnol – Rheoli asedau**

ACAC(12) Papur 1c. Rheoli asedau

10. Cyflwynodd Rachael Tonkin o KPMG adroddiad ar reoli asedau. Rhoddwyd sgôr cyffredinol, sef 'boddhaol', ac roedd y prif ganfyddiadau'n nodi bod angen gwelliannau yn y meysydd canlynol:

- nodi a dosbarthu gwariant yn gyfalaf neu'n dreuliau;
- trywydd archwilio asedau sy'n cael eu hadeiladu;
- geiriad y polisi cyfrifyddu i sicrhau bod y bywydau economaidd defnyddiol a roddwyd i asedau yn gywir.

11. Dywedodd Nicola Callow wrth y Pwyllgor Archwilio ei bod yn sicr bod y gwiriadau a'r rheolaethau sydd ar waith yn y tîm Cyllid yn ddigon cadarn i ddal gwallau.

12. Gofynnodd y Pwyllgor i'r swyddogion pam nad oedd cynrychiolwyr o'r tîm cyllid ar bob bwrdd prosiect. Dywedodd Steven O'Donoghue wrth y Pwyllgor Archwilio bod dull gweithredu newydd y rhaglen fuddsoddi yn cydnabod pwysigrwydd cymorth ariannol i brosiectau ac ychwanegodd Claire Clancy na fyddai'n cymeradwyo gwariant ar unrhyw brosiect os nad oedd yn fodlon bod y swyddogion arbenigol priodol wedi bod yn rhan o'r broses.

**Eitem 6 – Adroddiad ar yr archwiliad mewnol – Rheoli cyllideb a phrosesau rheoli ariannol**

ACAC(12) Papur 1d. Gwasanaeth Cyllid: Adolygiad o effeithlonrwydd rheoli cyllideb a phrosesau rheoli ariannol

13. Cyflwynodd Lynne Flux y papur, a oedd yn rhoi lefel 'rhesymol' o sicrwydd ynghylch y rheolaethau sydd ar waith. Mynegodd Angela Burns bryder bod deiliaid cyllideb yn teimlo nad oedd unrhyw ymgyrch

fawr i gael arbedion effeithlonrwydd fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb.

14. Mewn ymateb, dywedodd Steve O'Donoghue bod gwelliannau gwerth am arian ac effeithlonrwydd yn digwydd ar draws y Cynulliad. Rhoddodd enghreifftiau, sef y cynlluniau diswyddo a'r prosiectau ABMS ac AD/cyflogres, ond ychwanegodd bod angen cyflwyno'r buddion mewn modd mwy gweladwy. Ychwanegodd Lynne Flux bod yr adolygiad wedi canfod bod angen i ymwybyddiaeth o'r mentrau hyn—a'r nod o geisio sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian ar lefel fwy micro—raeadru i lawr i ddeiliaid cyllideb ar bob lefel.

15. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio yr adroddiad, gan nodi pa mor bwysig yw ymgorffori rheolaeth ariannol yn y sefydliad yn yr hirdymor ac mewn modd strategol. Nododd hefyd pa mor bwysig yw'r defnydd o iaith gadarnhaol mewn adroddiadau archwilio, lle bo hynny'n briodol ac yn wedi'i gyfiawnhau gan y dystiolaeth, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar forâl a diwylliant y sefydliad.

**Eitem 7 – Y wybodaeth ddiweddaraf am Reoli Diogelwch Gwybodaeth a Diogelu Data**

ACAC(12) Papur 1e**.** Rheoli gwybodaeth a diogelu data: cynnydd o ran yr argymhellion

16. Cyflwynodd Lynne Flux ei phapur, gan nodi bod y Rheolwr Gwybodaeth wedi cael ei benodi ers cyfarfod blaenorol y Pwyllgor. Dywedodd ei bod yn fodlon â'r cynnydd ar yr argymhellion a'i fod yn bwysig cadw momentwm y gwaith.

17. Dywedodd Dianne Bevan y bydd papur yn cael ei gymryd i'r Bwrdd Rheoli yr wythnos ganlynol er mwyn cytuno ar gylch gorchwyl y grŵp diogelu gwybodaeth. Dywedodd hefyd y byddai penaethiaid gwasanaeth, fel perchnogion asedau, yn cael hyfforddiant SIRO. Diolchodd Diane i Tim Knighton a'i gydweithwyr yn Nhŷ'r Cwmnïau am eu cymorth yn ddiweddar.

18. Er mai'r Cyfarwyddwr TG newydd fydd y SIRO, dywedodd Tim Knighton wrth swyddogion na ddylid ei weld fel cyfrifoldeb TG. Yr arfer gorau yw i rywun fod yn gyfrifol am sicrhau gwybodaeth y tu allan i linell y Cyfarwyddwr TG.

**Strategaeth y gyllideb**

**Eitem 8 – Papur ar strategaeth y gyllideb**

ACAC(12) Papur 2a. Papur ar strategaeth y gyllideb

19. Cyflwynodd Nicola Callow y papur er gwybodaeth, yn dilyn cais y Pwyllgor yng nghyfarfod mis Chwefror.

**<u>Archwiliad allanol</u>**

**Eitem 09 – Archwiliad interim**

ACAC (12) Eitem lafar. Canlyniadau'r archwiliad interim.

20. Rhoddodd Richard Harries o Swyddfa Archwilio Cymru y wybodaeth ddiweddaraf am yr archwiliad interim, gan nodi nad oedd pryderon ynghylch cymeradwyo'r cyfrifon yn yr haf, er bod angen gwneud rhai gwelliannau bach.

21. Ychwanegodd Richard fod y gwaith ar dreuliau'r Aelodau yn y trydydd chwarter wedi'i gwblhau ac nad oedd pryderon. Bydd adborth llawn yn cael ei roi yng nghyfarfod mis Mehefin yn dilyn gwaith y pedwerydd chwarter.

22. Yn sgîl adroddiadau cadarnhaol, ar y cyfan, dros y blynyddoedd diwethaf, dywedodd Richard wrth y Pwyllgor bod Swyddfa Archwilio Cymru yn trafod gyda swyddogion y lefel o wybodaeth y dylai ei hadrodd i'r Pwyllgor yn y dyfodol.

23. Rhoddodd Nicola Callow y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio ar y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol, gan nodi bod y tanwariant ar ochr y Comisiwn yn debygol o fod o fewn y targed, ar £500,000. Ar ochr yr Aelodau, roedd y ffigwr yn debygol o fod ychydig o dan £1 miliwn, a oedd i'w ddisgwyl ym mlwyddyn gyntaf Cynulliad newydd.

**<u>Llywodraethu Comisiwn y Cynulliad</u>**

**Eitem 10 – Datganiad Llywodraethu**

ACAC(12) Papur 3a. Datganiad Llywodraethu Drafft 2011-12

24. Cyflwynodd John Grimes y drafft diweddaraf o'r datganiad llywodraethu a gwahoddwyd sylwadau gan y Pwyllgor. Awgrymodd y Pwyllgor y dylai'r papur, er cysondeb, gynnwys y nifer o weithiau y cyfarfu'r Pwyllgor Taliadau, ac y dylid ailysgrifennu paragraff sy'n crynhoi prosesau rheoli caffael a chontractau er mwyn nodi bod gwaith i'w wneud o hyd yn y maes hwn.

**Eitem 11 – Rheoli risg**

ACAC(12) Papur 3b. Y fframwaith rheoli risg newydd

25. Cyflwynodd John Grimes y papur a oedd yn manylu ar y fframwaith risg newydd wedi'i symleiddio, ynghyd â chrynodeb o'r 14 risg corfforaethol.

26. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio'r dull newydd a'r newid tuag at symleiddio. Ychwanegodd yr Aelodau bod angen i swyddogion ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig ag ymdrechion i ymosod ar wefan y Cynulliad o'r tu allan. Pwysleisiwyd yr angen am raglen o efelychiadau i brofi ymatebion allweddol, ac i ystyried cynlluniau wrth gefn ar gyfer toriadau pŵer posibl y tu hwnt i 2016.

**Eitem 12 – Effeithlonrwydd y Pwyllgor**

ACAC(12) Papur 3c. Canlyniadau arf Swyddfa Archwilio Cymru;
ACAC(12) Eitem lafar. Sylwadau gan Aelodau ar y cylch gorchwyl

27. Nododd Richard Harries y cyfeiriad teithio cadarnhaol a ddangosir yng nghanlyniadau'r hunan-asesu a gwblhawyd gan Aelodau'r Pwyllgor ac eraill a oedd yn bresennol, a dywedodd nad oedd unrhyw bryderon penodol.

28. Nododd y Cadeirydd ychydig o bwyntiau:

- perfformiad yn yr archwiliad mewnol, a gaiff ei asesu gyda'r asesiad newydd a nodwyd yn gynharach;
- camau gwrth-dwyll;
- Aelodau newydd a'r cyfnod cynefino, yn enwedig yn sgîl aelodaeth gylchdro'r Pwyllgor Archwilio, a fydd yn golygu dau Aelod newydd ar ddiwedd y flwyddyn hon.

29. Ni chafwyd sylwadau ar y cylch gorchwyl.

**Eitem 13 – Adroddiad blynyddol 2011/12**

ACAC(12) Papur 3d. Adroddiad blynyddol drafft 2011/12

30. Gofynnodd y Cadeirydd bod unrhyw sylwadau ar ddrafftio yn cael eu rhoi i John Grimes ar ôl y cyfarfod.

**<u>Eitemau eraill</u>**

**Item 14 – Darpariaethau sy'n dod i ben**

ACAC(12) Papur 4a. Crynodeb o ddarpariaethau sy'n dod i ben

31. Amlinellodd John Grimes gefndir diwedd y strategaeth yswiriant a'r amser a fyddai ei angen i lunio strategaeth yswiriant newydd ac ymgynghori arno.

32. Mewn perthynas â'r wefan yn dod i ben, nododd Tim Knighton bod meddalwedd cod agored yn werth da am arian ac y dylid ystyried ei ddefnyddio lle bo hynny'n bosibl.

**Item 15 – Blaenraglen waith a dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol**

ACAC(11) Papur 4b. Blaenraglen waith

33. Cytunwyd ar y blaenraglen waith a gofynnodd John Grimes i'r Aelodau gadarnhau eu bod ar gael ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Ysgrifenyddiaeth**
**Ebrill 2012**

# Eitem 5

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol ârheolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol ârheolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol ârheolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol ârheolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

**AC(4)2012(4) Papur 6 rhan 1**

**Dyddiad:** Dydd Llun 14 Mai 2012
**Amser:** 14:30 – 16:30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw a rhif ffôn yr awdur:** Claire Clancy, est 8233

**Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn**
**Mai 2012**

**Braslun**

1.0 Nod strategol – darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf ................ 2
2.0 Nod strategol – ymgysylltu â phobl Cymru ........................................ 7
3.0 Nod strategol – hyrwyddo Cymru........................................................ 9
4.0 Nod strategol – defnyddio adnoddau'n ddoeth ................................. 11
5.0 Adroddiad ariannol ........................................................................ 13
6.0 Gwybodaeth ychwanegol ................................................................. 13

**Rhestr o atodiadau**

- Atodiad: Rhyddid Gwybodaeth (Ionawr – Mawrth 2012)

**AC(4)2012(4) Papur 6 rhan1**
**Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn**

**Nodau Strategol Comisiwn y Cynulliad**

**1.0 Nod strategol – darparu cymorth strategol o'r radd flaenaf**

1.1 **Y wybodaeth ddiweddaraf am fusnes y Cynulliad**

a. Rhoddwyd adnoddau ychwanegol i'r Gwasanaeth Ymchwil i gryfhau'r gwasanaethau a gynigir o ran dadansoddi a chraffu ariannol. Dyma'r prif amcanion:

- Hybu ac annog proses fwy o effeithiol o graffu ar ddeddfwriaeth a pholisïau'r Llywodraeth o safbwynt ariannol;
- Paratoi papurau briffio'n ymwneud â meysydd allweddol sydd o ddiddordeb cyfredol a meithrin y gallu i gostio cynigion gwariant gwahanol;
- Darparu rhagor o adnoddau ar gyfer costio Biliau Cynulliad i sicrhaumethodoleg fwy cadarn;
- Gwella'r gwasanaeth ymholiadau o ran cwmpas a dyfnder y gwaith dadansoddi a gynigir;
- Darparu papurau briffio sy'n dadansoddi meysydd allweddol yng ngwariant y Llywodraeth a rhagor o wybodaeth a gwaith dadansoddi yn ymwneud â'r economi/y farchnad lafur.

1.2 Pwyllgorau

a. Mae'r Pwyllgorau hefyd wedi cynyddu nifer yr arbenigwyr allanol y maent yn eu defnyddio, a phenodwyd mwy o gynghorwyr arbenigol y tymor diwethaf nag yn ystod unrhyw flwyddyn flaenorol. Daw'r arbenigwyr hyn o wahanol feysydd, gan gynnwys y byd academaidd a sefydliadau arbenigol:

- Penododd y Pwyllgor Amgylched a Chynaliadwyedd ddau gynghorwr i'w helpu yn eu hymchwiliad i'r achos busnes dros un corff amgylcheddol;
- Penododd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc arbenigwr i'w cynorthwyo gyda'u gwaith ymgysylltu ar gyfer eu hymchwiliad i fabwysiadu;
- Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn defnyddio tri arbenigwr ar gyfer eu hymchwiliad eang i ofal preswyl. Maent yn darparu gwybodaeth a sgiliau dadansoddi arbenigol ac maent hefyd yn hwyluso

cysylltiadau â phobl na fyddent fel arfer yn cyfrannu at waith y pwyllgorau;

- Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi penodi cynghorwr arbenigol ar gyfer ei ymchwiliad i Gyllid datganoledig: pwerau benthyg a chyfalaf.

b. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi adolygu gweithdrefn balot y Cwestiynau Llafar yn ddiweddar. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn pryderu am y ffaith nad yw 15 o gwestiynau'n cael eu cyflwyno gan yr 20 Aelod a ddewiswyd yn y balot, a hynny'n weddol reolaidd. Mae yn wir yn achos yr holl Weinidogion, y Cwnsler Cyffredinol a Chomisiwn y Cynulliad. Cytunwyd i beidio â newid y weithdrefn ar gyfer Gweinidogion ar hyn o bryd, ond i drafod y mater gyda'r Aelodau yn eu grwpiau ac i barhau i adolygu'r sefyllfa.

c. Cytunwyd fodd bynnag, i adolygu'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Chomisiwn y Cynulliad. Cytunwyd i ddileu'r angen i gynnal balot cychwynnol ar gyfer cwestiynau ac i ddychwelyd i'r hen drefn a oedd yn caniatáu i unrhyw Aelodau gyflwyno cwestiwn (gan ddewis 15 ar hap). Byddai hyn yn cael gwared ar yr angen canfyddedig i'r Aelodau hynny sy'n llwyddo yn y balot gyflwyno cwestiwn ac i roi mwy o gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau llafar.

d. Bydd y Pwyllgor Busnes yn cynnig newid y Rheolau Sefydlog, yn y Cyfarfod Llawn, cyn y cylch nesaf o gwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Comisiwn.

1.3 Y Bwrdd Taliadau

*Aros dros nos*

a. Cyfarfu'r Bwrdd Taliadau ar 23 Mawrth. Trafodwyd a oedd y trefniadau presennol i ganiatáu i Aelodau aros dros nos os oedd eu prif gartref yn yr ardal fewnol. Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod y dystiolaeth yn dangos bod angen caniatáu i'r Aelodau hynny a oedd â'u prif gartref yn etholaethau Gŵyr, Gorllewin Abertawe, Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd aros dros nos yn amlach. Roedd y dystiolaeth hefyd yn dangos mai anaml iawn roedd Aelodau o Ganol De Cymru a Dwyrain De

Cymru yn aros dros dro ac nad oedd mwyafrif yr Aelodau a oedd yn byw yn yr ardaloedd hyn wedi aros dros nos o gwbl.

b. Mae'r Bwrdd wedi ysgrifennu at yr holl Aelodau yn gofyn am eu sylwadau ar y newidiadau arfaethedig a ganlyn:

- Cynyddu nifer y nosweithiau y gall Aelodau aros dros nos os yw eu prif gartref yn etholaethau Gŵyr, Gorllewin Abertawe, Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd. Byddent yn cael aros tua 36 noson bob blwyddyn gan ganiatáu iddynt aros o leiaf unwaith bob wythnos pan fydd y Cynulliad yn eistedd.

- Gan fod yr Aelodau hynny sy'n byw yn etholaethau eraill yr ardal fewnol yn aros mor anaml dros nos yng Nghaerdydd, bwriedir gostwng nifer y nosweithiau y cânt aros dros nos i 15 bob blwyddyn.

- Yn unol â chyllidebau eraill ar gyfer llety, caiff y gyllideb sydd ar gael i Aelodau'r ardal fewnol aros dros nos yng Nghaerdydd ei mynegi fel swm ariannol yn hytrach na fel nifer y nosweithiau y cânt aros dros nos. Byddai hyn yn caniatáu i'r Aelodau wario'r swm yn hyblyg i fodloni'u hanghenion ar unrhyw fath o lety hyd at uchafswm o £95 y noson. Byddai'r lwfans cynhaliaeth dros nos, sef £20, yn parhau, yn ogystal â'r gyllideb hon. £3,420 fyddai'r swm blynyddol arfaethedig ar gyfer Aelodau sydd â'u prif gartref yng Ngŵyr, Gorllewin Abertawe Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, a £1,425 fyddai'r swm arfaethedig ar gyfer Aelodau sydd â'u prif gartref yn etholaethau eraill yr ardal fewnol.

c. Oherwydd y pryderon a fynegwyd yn ymwneud â digwyddiadau annisgwyl mewn tywydd eithriadol, cytunwyd hefyd i ganiatáu i'r Prif Weithredwr ystyried ceisiadau ychwanegol i aros dros nos o dan amgylchiadau o'r fath.

d. Mae angen anfon sylwadau erbyn 17 Mai. Bydd y Bwrdd yn penderfynu'n derfynol ynghylch y mater hwn yn ei gyfarfod ar 22 Mehefin.

*Trefniadau ar gyfer staff cymorth yr Aelodau*

a. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i adolygu cyflogau a'r trefniadau ar gyfer staff cymorth erbyn mis Ebrill 2013. Yn dilyn trafodaethau yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, cytunodd y Bwrdd fod y gwaith hwn yn debygol o gynnwys proses fwy cynhwysfawr o werthuso disgrifiadau swydd a chyfrifoldebau staff cymorth ac ystyried pa mor briodol yw'r bandiau cyflog a'r graddfeydd.

b. Cytunodd y Bwrdd y dylai tâl staff cymorth yr Aelodau adlewyrchu gwerth y gwaith y maent yn ei wneud, ac yn unol â chymaryddion priodol eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru.

c. Roedd y Bwrdd yn cydnabod bod cyflogau staff cymorth yn allweddol pan fydd Aelodau'n ceisio denu ymgeiswyr o'r safon briodol i lenwi swyddi gwag er mwyn cynnal safon y gwasanaeth a ddarperir iddynt a chynyddu gallu strategol y Cynulliad.

d. Cytunodd y Bwrdd hefyd y dylai'r adolygiad ystyried y cyd-destun gwleidyddol ac economaidd ehangach.

e. Mae Cadeirydd y Bwrdd wedi ysgrifennu at Arweinwyr y Pleidiau, cynrychiolwyr staff cymorth yr Aelodau ac Angela Burns AC (sef y Comisiynydd Cynulliad perthnasol) yn nodi bod y Bwrdd yn bwriadu ymgynghori ac ymgysylltu â'r rhai y bydd ei benderfyniadau'n effeithio arnynt.

*Pensiynau'r Aelodau*

a. Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer ei adolygiad o bensiynau'r Aelodau, mae Bwrdd wedi penodi Pricewaterhouse Coopers i gyflwyno seminar pensiynau a chynhyrchu adroddiad, a fydd yn sail i ymgynghoriad y Bwrdd yn Hydref 2012.

b. Cynhelir y seminar ar 21 Mehefin. Caiff cynrychiolwyr o Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn eu gwahodd i fod yn bresennol.

1.4 Gwella'r gwasanaeth TGCh

*Rhaglen i wella gwasanaethau'n barhaus (CSIP)*

a. Mae'r rhaglen gwella gwasanaethau'n barhaus (CSIP) ar waith yn awr ers tri mis a gwelwyd gwelliannau sylweddol eisoes, er bod llawer o'r rhain yn ymwneud â newidiadau y tu ôl i'r lleni yn y modd y mae Atos yn darparu'n gwasanaeth. Dyma sut y mae'r gwasanaeth wedi gwella:

- Mae'r holl swyddfeydd etholaethol wedi troslgwyddo naill i rwydwaith newydd BT neu, os nad oedd hynny'n bosibl, (fel arfer pan nad yw Cyfnewidfa Leol BT yn gydnaws â (21CN), i seilwaith gwell. Cwblhawyd y gwaith hwn chwe wythnos yn gynt na'r disgwyl.

- Mae'r holl swyddfeydd etholaethol wedi trosglwyddo i wasanaeth VIP BT, sy'n gallu ymateb yn gynt i unrhyw broblemau sy'n codi.

- Ymwelwyd â 62 o swyddfeydd etholaethol i archwilio cyflwr y systemau TGCh, i'w gwella os oedd modd ac i gasglu gwybodaeth am unrhyw broblemau y mae angen gwaith mwy trylwyr i'w datrys.

- Mae staff TGCh wedi cyfarfod â'r rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad i nodi unrhyw broblemau o bwys, mae gwybodaeth yn cael ei chasglu a chaiff ei defnyddio fel sail i'r broses o gynllunio gwaith, fel cysylltiad diwifr, amrywiaeth ehangach o ddyfeisiau ar gyfer defnyddwyr a BYOD.

*Gwaith achos*

a. Dyma'r sefyllfa ddiweddaraf yng nghyswllt gwella system Gwaith Achos y Cynulliad:

- Cwblhawyd amgylchedd profi'r Cynulliad ac aethpwyd ati i brofi'r system yn ystod y cyfnod yn arwain ar benwythnos yr Ŵyl Banc.

- Dechreuir profi'r system defnyddwyr yr wythnos ar ôl yr Ŵyl Banc a bydd yn parhau am bythefnos ac, os bydd yn llwyddiannus, caiff y gwaith ei gwblhau erbyn diwedd mis Mai.

- Mae arwyddion cynnar ar ôl cynnal profion ar y system yn ffafriol o ran datrys problemau a chynyddu defnyddioldeb.

*Gwasanaethau TGCh a'r Strategaeth TGCh yn y dyfodol*

a. Mae'r gwaith o baratoi a gwerthuso'r posibiliadau ar gyfer gwasanaethau TGCh yn y dyfodol yn mynd rhagddo. Mae tîm prosiect yn cael ei sefydlu i ymgymryd â'r gwaith gwerthuso a'r gwaith o baratoi achos busnes, a'r nod yw cwblhau'r gwaith o ddadansoddi'r dewisiadau erbyn diwedd 2012. Rhaid cofio bod angen i'r Comisiwn roi gwybod i Atos erbyn 30 Ebrill 2013am yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud.

b. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ffurfiol y bydd yn ymestyn Cytundeb Merlin, ar ôl cytuno ag Atos ar newidiadau sylweddol yn y gwasanaeth yn y dyfodol. Bydd nifer o'r newidiadau hyn yn fanteisiol i'r Comisiwn, gan gynnwys cyfraddau is ar gyfer prosiect, paratoi anfonebau ar wahân ar gyfer gwaith prosiect a gwaith gwella gwasanaethau craidd. Mae'r estyniad yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddewis ehangu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu tan 2019.

c. Ochr yn ochr â'r gwaith o ddadansoddi gwasanaethau yn y dyfodol, mae gwaith ar y gweill i ddatblygu strategaeth TGCh a Gwybodaeth ar gyfer y Cynulliad. Bydd angen cwblhau'r gwaith o greu gweledigaeth strategol cyn penderfynu ynghylch y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol.

## 2.0 Nod allweddol – ymgysylltu â phobl Cymru

2.1 Digwyddiadau

a. 01 Mawrth – I nodi dydd Gŵyl Dewi cynhaliodd y Llywydd dderbyniad yn y Senedd amser cinio. Y thema eleni oedd arddangos cynnyrch o Gymru. Bu Tîm Coginio Cymru a Chôr Meibion Cil-y-coed yn difyrru'r gwesteion a chafwyd cerddoriaeth gefndir hefyd gan delynores ifanc o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Ymhlith y gwesteion roedd cynhyrchwyr o Gymru a'r cyfryngau bwyd arbenigol.

b. 8 Mawrth – Nodwyd Diwrnod Rhyngwladol y Merched eleni mewn partneriaeth â'r Sefydliad Materion Cymreig, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Sefydliad y Merched a'r Cyngor Prydeinig. Dechreuodd y diwrnod yn y Pierhead pan groesawodd y Llywydd bawb i gyfarfod bord gron dros frecwast, ac yna cynhaliwyd grwpiau trafod a gweithdai yn y Pierhead dan ofal Sefydliad y Merched cyn i Tori James, y Gymraes gyntaf, a'r ferch ieuengaf o Brydain, i ddringo mynydd Everest, draddodi ei haraith amser cinio. Roedd y rhaglen ddigwyddiadau ar agor i'r cyhoedd ac roedd wedi'i anelu'n benodol at ferched a oedd â diddordeb mewn bywyd cyhoeddus.

c. 15 Mawrth – Cynhaliodd y Cynulliad ddigwyddiad Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yng Nghymru, a agorwyd gan Angela Burns fel Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad. Daeth tua 50 o bobl broffesiynol sy'n gweithio ym maes cyllid yng Nghymru i glywed am waith y Cynlluniad, y Pwyllgorau Cyllid a Chyfrifon Cyhoeddus, y cysylltiadau â gwaith Swyddfa Archwilio Cymru, a'r cynlluniau arloesol ar gyfer Canolfan Lywodraethu Cymru a'i leoliad newydd yn y Pierhead. Cafwyd ymateb da iawn, gan gynnwys y sylw, "we all know what the Assembly does generally, but it was really helpful to understand in greater detail what that means in practice".

d. 26 Mawrth –Ymwelodd Archesgob Caergaint fel rhan o'i daith flynyddol o amgylch Cymru. Dechreuodd y rhaglen gyda digwyddiad yn Siambr Hywel, a drefnwyd mewn partneriaeth â CEWC Cymru, i ddod â phobl ifanc ynghyd i drafod pynciau amrywiol. Yn dilyn hyn, cafwyd darlith gan yr Archesgob, dan gadeiryddiaeth Betsan Powys. Teitl y ddarlith oedd *For the Common Good: what is it that turns a society into a community?* Roedd y digwyddiad ar agor i'r cyhoedd.

e. 11 Ebrill – daeth Helen Clark, Gweinyddwr Rhaglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig a chyn Brif Weinidog Seland Newydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a thraddododd ddarlith yn y Pierhead fel rhan o Sesiynau'r Pierhead. Cafwyd barn Mrs Clark am y modd y mae'r broses o rymuso merched yn creu cymdeithasu democrataidd newydd a llwyddiannus, cyn

cymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb. Roedd y digwyddiad ar agor i'r cyhoedd.

**3.0 Nod strategol – hyrwyddo Cymru**

3.1 Ym mis Mawrth, hwylusodd Steven O'Donoghue, Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad, weithdy cynllunio strategol gydag Adran Cyfrifyddiaeth a Marchnadoedd Ariannol Prifysgol Derby. Yn ogystal â bod yn gyfle i hyrwyddo delwedd gadarnhaol o Gymru a'r Cynulliad, roedd hefyd yn fuddiol o ran meithrin dealltwriaeth o'r materion strategol sy'n wynebu sefydliadau eraill, sef Prifysgol yn yr achos hwn.

3.2 Y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau rhyngwladol

a. 22 Chwefror – cynhaliwyd cyfarfod preifat rhwng dirprwyaeth Sinn Féin, dan arweiniad Raymond McCartney MLA a'r Llywydd.

b. 1 Mawrth – daeth dirprwyaeth o Senedd Fflandrys, dan arweiniad y Llefarydd Jan Peumans i ymweld â'r Cynulliad i ddysgu rhagor am y broses ddatganoli yn y DU ac am flaenoriaethau'r Cynulliad.

c. 6 Mawrth – daeth Syr Alan Haselhurst AS, Cadeirydd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad i ymweld â'r Cynulliad a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd â Chadeirydd Cangen y Gymdeithas, y Pwyllgor Gweithredol a chyfarfod preifat â'r Llywydd.

d. 21 Mawrth – croesawodd y Llywydd fyfyrwyr o Gymru a myfyrwyr rhyngwladol i'r Cynulliad lle cynhaliwyd dadl ar thema'r Gymanwlad eleni, sef 'Cysylltu Diwylliannau' i ddathlu Diwrnod y Gymanwlad.

e. Cafodd y canlynol gyfarfod preifat â'r Llywydd yn ystod eu hymweliad cyntaf â Chymru:

f. 15 Mawrth – Ei Ardderchogrwydd Mr T Jasudasen Uchel Gomisiynydd Singapôr

g. 21 Mawrth – Ei Ardderchogrwydd Volodymyr Khandogiy Llysgennad Ukrain

h. 26 Mawrth – Ei Ardderchogrwydd Mr Daniel Taub Llysgennad Israel

i. 27 Mawrth– Ei Ardderchogrwydd Mr Roberto Jaguaribe Llysgennad Brasil

j. 25 Ebrill – Ei Ardderchogrwydd Werner Matías Romero Llyegennad El Salvador

3.3 Y Swyddfa Ewropeaidd

a. Bu Rhodri Glyn Thomas AC, yn ei rôl fel cynrychiolydd y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau, yn cymryd rhan yn y canlynol: cyfarfod llawn y Pwyllgor ar 15-16 Chwefror; seminar ar 22 Mawrth ar y Fframwaith Ariannol Aml-flwydd 2014-2020 ar gyfer seneddwyr cenedlaethol ledled yr UE; ac Uwchgynhadledd Dinasoedd a Rhanbarthau'r UE yn Copenhagen, gyda Christine Chapman AC ar 22-23 Mawrth, fel rhan o Lywyddiaeth Denmarc.

b. 23 Ebrill – ymwelodd Ken Skates AC â Brwsel i gael gwybodaeth gefndir am bolisïau a chyllid yr UE. Cyfarfu â swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd (Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Polisïau Rhanbarthol a Chyfarwyddiaeth Gyffredinol Ymchwil), Cynrychiolaeth Barhaol y DU yn yr UE (UKREP), cynrychiolwyr Tŷ Cymru, rhwydweithiau'r UE (busnes ac ymchwil) a Derek Vaughan, ASE Cymru.

3.4 Eraill

12-13 Chwefror – teithiodd Christine Chapman AC, Julie Morgan AC a Keith Davies AC i Helsinki i ddarganfod ffeithiau am y modd y mae'r Ffindir yn gorfodi'r gwaharddiad ar gosbi plant yn gorfforol.

**AC(4)2012(4) Papur 6 rhan1**
**Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn**

## 4.0 Nod strategol – defnyddio adnoddau'n ddoeth

4.1 Staffio

a. Mae Dave Tosh wedi ymgymryd â'i swydd fel Cyfarwyddwr TGCh. Bu'n gweithio gynt yng Nghyngor Dinas a Sir Abertawe. Connie Cockburn yw Pennaeth Ystadau a Blaen y Tŷ yn awr.

4.2 Adfer y Pierhead

a. Mae cam nesaf y gwaith o adfer y Pierhead ar y gweill. Bydd sgaffaldiau wedi'u gosod ar yr ochr sy'n wynebu'r basn hirgrwn am rai wythnosau. Mae'n rhaid gwneud y gwaith yn rhannol oherwydd rhesymau cadwraeth ond hefyd oherwydd materion diogelwch. Y gost ddisgwyliedig ar gyfer y cam hwn o'r gwaith yw oddeutu £75k. Caiff dwy wal olaf y Pierhead eu cwblhau gyda'i gilydd, a'r bwriad ar hyn o bryd yw gwneud hynny yn 2013, ond rydym yn ystyried a fyddai modd gwneud y gwaith eleni. Yn ystod cam cyntaf y gwaith o adfer yr adeilad, datgelwyd problem yn ymwneud â thrawst dros fynedfa flaen y Pierhead. Bydd angen gosod sgaffald bychan am gyfnod byr i ddelio â'r broblem hon. Caiff y gwaith ei wneud cyn gynted ag y bydd yn gyfleus.

4.3 Caffi a siop y Senedd

a. Ers agor y cyfleuster newydd, mae enillion y siop a'r caffi wedi cynyddu'n arw. Yn wir, mae'r enillion wedi dyblu bron o'u cymharu â'r un adeg y llynedd, er gwaethaf y tywydd gwlyb. Bydd Geraint Huxtable a Miranda Parker yn gweithio'n gyson i wella'r stoc a'r modd y'i cyflwynir. Mae Miranda yn gofyn am syniadau newydd gan yr Aelodau a chyrff eraill, ac yn eu rhoi ar waith.

4.4 Strategaeth Pobl Cynulliad Cenedlaethol Cymru

a. Cwblhawyd strategaeth pobl ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad. Mae'r strategaeth yn cynnig ffocws ar gyfer ein polisïau a'n gweithdrefnau ac mae wedi'i chynllunio i gyflawni'r nod o ddarparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf. Caiff copïau o'r strategaeth eu dosbarthu i'r Comisiynwyr yn fuan, cyn ei lansio i'r staff i gyd-fynd â Diwrnod Dysgu yn y Gwaith ym mis Mai.

4.5 Cynllun diswyddo

a. Lansiwyd Cynllun Diswyddo Gwirfoddol ym mis Ionawr 2012. Nod y cynllun oedd sicrhau bod trefniadau a strwythur staffio'r Comisiwn yn caniatáu inni ddarparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf yn ystod y Pedwerydd Cynulliad drwy:

- Ganiatáu i'r sefydliad ymateb i newidiadau yn ein hanghenion sgiliau;
- Gwella effeithlonrwydd y gweithlu;
- Hwyluso newid sefydliadol;
- Sicrhau arbedion hirdymor lle bynnag y bo modd a/neu osgoi mynd i gostau ychwanegol wrth ymdopi â diffyg sgiliau.

b. Gwahoddwyd staff y Cynulliad i wneud cais i adael eu swyddi a bu'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a Chyfarwyddwr Busnes y Cynulliad yn ystyried y ceisiadau. Aseswyd pob cais yn ôl y meini prawf y cytunwyd arnynt ac a rannwyd eisoes ag Ochr yr Undebau Llafur, ac a gyhoeddwyd ar fewnrwyd y staff.

c. Cafodd y ceisiadau eu hasesu'n drylwyr ac yn wrthrychol a hynny'n ôl y meini prawf y cytunwyd arnynt a gwaith costio manwl. Aelodau'r panel oedd Claire Clancy, Ian Summers (Cynghorydd Cyllid a Llywodraethu) a Mair Barnes (Cynghorwr Annibynnol i'r Comisiwn). Roedd gan staff hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad ac aelodau'r Panel Apêl oedd Keith Bush (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Prif Gynghorwr Cyfreithiol) a Tony Morgan (Cadeirydd Pwyllgor Taliadau Comisiwn y Cynulliad).

d. At ei gilydd, cafwyd cais gan 19 o aelodau staff a chymeradwywyd 16 ohonynt. Mae'r broses yn awr wedi'i chwblhau ac mae pob aelod o staff wedi cael gwybod am y penderfyniad ac yn paratoi i adael ar ddiwedd eu cyfnod o rybudd, sef 30 Mehefin 2012 yn achos y rhan fwyaf ohonynt.

e. Cyfanswm cost y ceisiadau a gymeradwywyd yw £622,688, a bydd arbedion blynyddol o £ 304,734, sy'n golygu y bydd y cynllun wedi talu amdano'i hun ymhen oddeutu 25 o fisoedd.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn ystyried sut y byddwn yn gallu manteisio ar ganlyniadau'r cynllun i sicrhau bod ein hadnoddau o ran staff yn cyfateb i anghenion y Comisiwn a'r Pedwerydd Cynulliad.

4.3 Y Pwyllgor Taliadau

a. Yn unol â'i rôl annibynnol o oruchwylio trefniadau rheoli perfformiad uwch staff, yn ei gyfarfod ar 19 Ebrill, ystyriodd y Pwyllgor Taliadau adroddiadau gan y Llywydd yn ymwneud â pherfformiad y Prif Weithredwr a chan y Prif Weithredwr yn ymwneud â pherfformiad y Cyfarwyddwyr. Cadarnhaodd y Pwyllgor hefyd adroddiad blynyddol draft i'r Comisiwn yn crynhoi ei waith y llynedd. Hefyd, bu'r Pwyllgor yn adolygu ei gylch gorchwyl i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben. Bydd y papurau hyn yn cael eu trafod gan y Comisiwn yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.

## 5.0 Adroddiad ariannol

5.1 Ar ddiwedd 2011-12 roedd tanwariant o £1.6m o'i gymhar â chyllideb o £47.022m at ei gilydd. Fel y rhagwelwyd, mae tanwariant Gwasanaethau'r Cynulliad (£567k) o fewn y targed corfforaethol o 2%. Mae'r addasiadau terfynol ar ddiwedd y flwyddyn yn mynd rhagddynt ac rydym yn rhagweld y bydd y sefyllfa derfynol yn gostwng i 1.5%, sef tanwariant o lai na £500k. Mae'r gyllideb o £14.694m ar gyfer hawliadau a chyflogau Aelodau'r Cynulliad yn dangos tanwariant o lai na £1m. Byddwn yn cyflwyno Cyfrifon Blynyddol y Comisiwn a'r Cynllun Pensiwn i Swyddfa Archwilio Cymru.

5.2 Bydd y diweddariad nesaf i'r Comisiynwyr yn cynnwys y wybodaeth ariannol ddiweddaraf ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13.

5.3 Mae'r gwaith o baratoi cyllideb 2013-14 yn mynd rhagddo wedi i'r Comisiynwyr gytuno i gyflwyno'r strategaeth o fewn cyllideb o £49.45m. Dyma'r ffigur a gyhoeddwyd yng nghyllideb 2012-13. Mae'n adlewyrchu cyngor y Pwyllgor Cyllid i wella gwasanaethau dros y ddwy neu dair blynedd nesaf.

## 6.0 Gwybodaeth ychwanegol

**AC(4)2012(4) Papur 6 rhan1**
**Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn**

6.1 Mae rhestr o'r wybodaeth a ryddhawyd ers yr adroddiad diwethaf o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ynghlwm yn Atodiad A. Fel y cytunwyd, mae'r rhestr yn cynnwys manylion y wybodaeth na ryddhawyd oherwydd eithriadau yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O hyn ymlaen, bydd yr adroddiadau'n cynnwys yr amser a gymerodd i ymdrin â'r ceisiadau. Mae'r datgeliad llawn ar gael i'r Comisiynwyr os ydynt yn dymuno'i weld.

**Atodiad A**

**Gwybodaeth a ryddhawyd yn dilyn ceisiadau i weld gwybodaeth (Ionawr – Mawrth 2012)**

- Gwybodaeth a chostau'n ymwneud ag ymgynghorwyr y mae'r Cynulliad yn eu defnyddio
- Gwybodaeth am ddefnyddio'r gronfa ymgysylltu
- Cost y Gwasanaeth Cyfieithu
- Staff a chostau pob maes gwasanaeth y Cynulliad
- Gwybodaeth am siaradwyr Cymraeg yn y Cynulliad
- Gwybodaeth a chostau'n ymwneud â'r feithrinfa
- Costau'n ymwneud â'r Bwrdd Taliadau
- Gwybodaeth am swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad a'r dodrefn a ddarperir
- Costau a manylion y cyrsiau hyfforddi y bu staff y Cynulliad yn eu dilyn
- Gwybodaeth am y modd y mae'r Cynulliad yn defnyddio staff a chytundebau asiantaeth
- Gwybodaeth am staff y Cynulliad a'r isafswm cyflog
- Manylion gohebiaeth rhwng y Cynulliad ac AWEMA
- Nid oedd gwybodaeth ar gael – cyflogaeth flaenorol unigolyn
- Nid oedd gwybodaeth ar gael – gwybodaeth am daliadau bonws i staff y Comisiwn
- Nid oedd gwybodaeth ar gael – manylion cytundebau i ddarparu gwrthrychau cosmetig ar ystâd y Cynulliad
- Nid oedd gwybodaeth ar gael – manylion cyfarfodydd rhwng Aelodau a Gweinidogion y Cynulliad

**Gwybodaeth na ryddhawyd yn dilyn ceisiadau i weld gwybodaeth (Ionawr – Mawrth 2012)**

- Manylion ceisiadau gan Aelodau am dreuliau a wrthodwyd gan y Cynulliad **Adran 36 – gwybodaeth sydd wedi'i eithrio ar sail cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol**
- Gohebiaeth a oedd yn cynnwys data personol sensitif am un o'r Aelodau **Adran 40 – gwybodaeth sydd wedi'i heithrio gan mai data personol sydd wedi'i eithrio**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

**AC(4)2012(4) Papur 7 rhan 1**

**Dyddiad:** Dydd Llun 14 Mai 2012
**Amser:** 14:30 - 16:30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Carys Evans, est 8598

## Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad

| Dyddiad y cyfarfod | Eitem agenda | Deiliad Portffolio / swyddog arweiniol |
|---|---|---|
| **28 Mehefin 12** | Arwyddo adroddiad blynyddol a chyfrifon 2011-12 | Y Llywydd/Claire Clancy |
| | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| | Strategaeth TGCh | Peter Black/David Tosh |
| | Adolygiad chwe mis o fanteision ac arbedion UNO | Peter Black/David Tosh |
| | Bil Ieithoedd Swyddogol | Rhodri Glyn Thomas / Non Gwilym |
| | Y Pwyllgor Tâl | Angela Burns / Claire Clancy |
| | Y wybodaeth ddiweddaraf gan ddeiliaid portffolio | Deiliaid portffolio |
| | Rhaglen dreigl | Ysgrifenyddiaeth |
| **12 Gorffennaf 12** | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| | Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad | Angela Burns / Steve O'Donoghue |
| | Cytundeb Lefel Gwasanaeth yr Heddlu ar gyfer Diogelwch y Cynulliad Cenedlaethol | Sandy Mewies / Steve O'Donoghue |
| | Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2011-12 | Sandy Mewies / Ross Davies |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Ysgrifenyddiaeth |
| **27 Medi 12** | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |

**AC(4)2012(4) Paper 7**
**Assembly Commission rolling programme**

| Dyddiad y cyfarfod | Eitem agenda | Deiliad Portffolio / swyddog arweiniol |
|---|---|---|
| | Y wybodaeth ddiweddaraf gan ddeiliaid portffolio | Deiliaid portffolio |
| | Rhaglen dreigl | Ysgrifenyddiaeth |